Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangrallo

**Y Brif Ffordd
Llangrallo
CF35 5HN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llangrallo

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llangrallo |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 149 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 114 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 18 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 17.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2008 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/03/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/11/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r ysgol yn gymuned fywiog a chynhwysol lle mae disgyblion, staff a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael croeso a chefnogaeth. Mae ymrwymiad cryf i sicrhau lles pawb yn treiddio trwy waith yr ysgol. Adlewyrchir hyn yng ngwaith tîm y staff ac yn ymddygiad eithriadol o dda bron pob un o'r disgyblion, sy'n dangos agweddau cadarnhaol yn gyson tuag at ddysgu ac at fywyd ysgol yn gyffredinol. Mae'r ethos hwn yn ategu'r cynnydd cadarn a wna disgyblion, ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu hyder a'u medrau ar draws yr holl feysydd dysgu yn effeithiol.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm cyfoethog a difyr sy'n cynnal diddordeb disgyblion yn dda. Maent yn gwneud defnydd buddiol o gysylltiadau cryf â'r gymuned leol i gyfoethogi profiad disgyblion, er enghraifft trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol sy'n helpu dod â thestunau mae disgyblion yn dysgu amdanynt yn y dosbarth yn fyw. Mae athrawon a swyddogion cymorth dysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn agos ac yn rhannu ffocws clir ar gefnogi dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod tasgau yn galluogi disgyblion i wneud cymaint o gynnydd ag y gallent, er enghraifft wrth weithio'n annibynnol yn yr ardal awyr agored. Un o gryfderau nodedig darpariaeth yr ysgol yw'r ffordd y mae staff yn adeiladu'n llwyddiannus iawn ar gyfleoedd i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth. O ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion yn datblygu synnwyr brwd o degwch a goddefgarwch.

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad clir a phwrpasol i waith yr ysgol. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan uwch arweinwyr a staff sy'n ymateb yn gadarnhaol i'r disgwyliadau a osodir ganddi. O'r herwydd, mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau yn nysgu disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi gwerthuso agweddau ar ansawdd yr addysgu, fel effaith adborth athrawon i ddisgyblion, yn ddigon agos. Mae datblygiad proffesiynol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol, ac wedi arwain at welliannau gwerth chweil i ddarpariaeth yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn dangos cefnogaeth gref i'r ysgol ac yn cyflawni eu rôl yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Rhoi adborth clir i ddisgyblion sy'n nodi'n fanwl gywir beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith, a'u galluogi i weithredu yn unol â'r arweiniad hwn

A2 Darparu her briodol, yn enwedig mewn gweithgareddau annibynnol, i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud

A3 Canolbwyntio hunanwerthuso yn fwy miniog ar ansawdd yr addysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

# Prif werthusiad

## Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â medrau sy'n debyg i'r rhai a ddisgwylir am eu hoedran, neu uwchlaw. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da ac yn defnyddio eu gwybodaeth a'u medrau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda mewn gwersi. Maent yn rhoi sylw manwl i gyfarwyddiadau ac yn dangos parch at y rhai sy'n siarad, gan gynnwys eu cyfoedion. Mae disgyblion iau yn siarad yn hyderus am eu gweithgaredd, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o eirfa yn aml i ddisgrifio neu esbonio'r hyn y maent yn ei wneud. Mae disgyblion hŷn yn trafod materion mewn grwpiau bach yn bwrpasol, wrth fyfyrio ar feddyliau a theimladau posibl cymeriadau mewn stori dosbarth. Maent yn addasu eu ffordd o siarad mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol, er enghraifft yn ystod sesiwn holi ac ateb gyda phreswylydd lleol i rannu ei phrofiad am orfod gadael ei chartref yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen i ddysgu ar draws y cwricwlwm yn briodol. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin a derbyn yn adnabod seiniau llythrennau o'u henwau ac yn dechrau creu cronfa fwy o seiniau syml yn gyflym. Maent yn defnyddio'r rhain i seinio geiriau syml yn annibynnol. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau hirach a mwy cymhleth yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn adnabod geirfa allweddol wrth ddarllen enghraifft model o lythyr gan gymeriad yn eu stori dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen amrywiaeth o destunau sy'n briodol o heriol â chywirdeb. Mae disgyblion mwy abl yn darllen yn hyderus gyda rhuglder a mynegiant da, er enghraifft i fywiogi deialog rhwng plentyn a'i Dad-cu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos sylw priodol i atalnodi ac yn darllen yn effeithiol i gael ystyr, gan ddangos dealltwriaeth dda o'r llyfrau y maent yn eu darllen.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn dechrau ffurfio llythrennau â'r cyfeiriad cywir a maint rheolaidd. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu gwybodaeth am seiniau llythrennau i sillafu ystod ehangach o eiriau yn annibynnol, ac yn dechrau ysgrifennu'n fwy estynedig at ddibenion penodol, yn aml yn gysylltiedig â'r storïau y maent yn eu rhannu yn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu yn briodol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu dyddiaduron a llythyrau o safbwynt faciwî i gyfleu eu meddyliau a'u teimladau personol yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn cyfuno geirfa fanwl a nodweddion arddull fel trosiadau i roi mynegiant byw i'w hemosiynau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn sillafu ac atalnodi eu hysgrifennu yn gywir. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfle i ailedrych ar eu hysgrifennu i'w ddatblygu a'i ymestyn yn llawn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau mathemategol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau ymarferol gwerth chweil sy'n datblygu eu gwybodaeth fathemategol yn fuddiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn defnyddio

canlyniadau siart cyfrif dosbarth am hoff deganau i greu pictogram digidol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn briodol wrth drafod sut maen nhw wedi cyflwyno eu canfyddiadau. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn gwneud defnydd gwerth chweil o offer i ddatblygu eu dealltwriaeth o gynhwysedd. Maent yn profi effaith siâp cynhwysydd ar faint o hylif mae'n gallu ei ddal ac yn defnyddio eu canfyddiadau i fireinio eu hamcangyfrifon yn briodol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gyfrifo, a gallant esbonio pa ddulliau mae'n well ganddynt eu defnyddio, a pham. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod addas o fedrau yn hyderus ac yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu defnydd o Gymraeg llafar. Mae disgyblion iau yn canu caneuon a rhigymau cyfarwydd yn frwdfrydig, er enghraifft wrth ddewis ffrwythau cyn eu hamser chwarae yn y bore. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau cyfarwydd. Mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau dyddiol Helpwr Heddiw ac yn mwynhau cystadlu â'u cyfoedion wrth ateb cwestiynau. Fodd bynnag, er bod bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn llai parod i ddefnyddio eu Cymraeg llafar y tu allan i wersi â ffocws.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau digidol mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm yn effeithiol. Maent yn defnyddio platfformau ar-lein yn hyderus i fynd at eu gwaith, a'i gadw, yn annibynnol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio apiau negeseua ac e-bost i gyfathrebu'n effeithiol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn ymchwilio'n annibynnol i lunio cofiannau pobl ddu amlwg ar y thema 'Mae Gennym Ni Freuddwyd'. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn creu cyflwyniadau addysgiadol ar amrywiaeth o destunau yn gysylltiedig â themâu yn y dosbarth ac â'u diddordebau personol. Fodd bynnag, mae defnydd disgyblion o daenlenni a chronfeydd data yn llai datblygedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu creadigrwydd a'u medrau corfforol yn briodol. Mae llawer ohonynt yn dangos hyder i roi cynnig ar bethau ac yn myfyrio'n adeiladol ar yr hyn y maent yn ei gyflawni. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 3 yn arbrofi â gwahanol baentiau i greu lluniau yn gysylltiedig â'u testun am deganau. Maent yn dangos medrusrwydd a dychymyg da i greu delweddau manwl â gwead diddorol. Mae disgyblion iau yn mwynhau defnyddio deunyddiau adeiladu yn greadigol. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn dyfalbarhau i oresgyn problemau, er enghraifft aildrefnu eu model i ddelio â phrinder darnau penodol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn edrych ar waith amrywiaeth o arlunwyr a dylunwyr, fel Pablo Picasso a Laura Ashley, ac yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu i ddylanwadu ar eu gwaith eu hunain.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn saff a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan staff. Mae ethos cryf yr ysgol, sef parch a goddefgarwch a disgwyliadau uchel oedolion o ymddygiad, yn sicrhau bod disgyblion yn ystyried pobl eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, wrth symud o gwmpas yr ysgol a phan fyddant ar y maes chwarae. Maent yn setlo'n gyflym i fwrw ymlaen â thasgau ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gweithgareddau dysgu. Mae ganddynt

ddealltwriaeth glir iawn o reolau'r ysgol, pam maent yn bwysig a beth sy'n digwydd os na lynir atynt. Mae ganddynt ffydd y bydd staff bob amser yn ceisio deall pam mae rhywun wedi ymddwyn yn annerbyniol.

Bron ym mhob achos, mae disgyblion yn cydweithio'n dda ar dasgau ac yn dangos parch at farn a safbwyntiau pobl eraill. Maent yn ystyried cyfraniadau pobl eraill yn ofalus, ac yn ymateb yn feddylgar. Maent yn uniaethu'n dda â'u cyfoedion ac ag oedolion, ac yn gyson gwrtais.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau am fwyta'n iach a bod yn gorfforol egnïol. Maent yn gwneud defnydd da o'r offer ar y maes chwarae yn ystod amseroedd egwyl, ac yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio eu sgwteri a'u beiciau i fod yn egnïol a datblygu eu medrau corfforol.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn ymateb yn dda i'w meysydd cyfrifoldeb penodol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn siarad â balchder am sut maent yn cyflawni eu rolau fel Arweinwyr Eco ac Arweinwyr Digidol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn gweithredu â llawer o ymreolaeth wrth iddynt gynllunio, arwain a chofnodi eu cyfarfodydd eu hunain. Maent yn sôn am nifer o feysydd lle mae eu penderfyniadau wedi arwain at welliannau yn ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft trwy brynu offer ychwanegol i ddisgyblion ei ddefnyddio yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio. Mae disgyblion yn hyderus wrth fynegi eu barn i staff am waith yr ysgol a sut hoffent ei weld yn cael ei newid a'i wella. Maent yn credu bod staff yn gwrando ar eu barn ac yn gweithredu yn unol â hi.

Bron ym mhob achos, mae disgyblion yn ymgysylltu ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Maent yn awyddus i ddechrau gweithgareddau ac yn dangos diddordeb cynaledig yn yr hyn y maent yn ei wneud. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn falch o'u gwaith a'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau'n briodol pan fyddant yn cael anawsterau ac yn ceisio dod o hyd i atebion cyn gofyn am gymorth gan oedolyn. Fodd bynnag, at ei gilydd, oherwydd prinder cyfleoed, nid yw disgyblion yn dangos gallu cryf i fyfyrio ar broblemau a'u datrys yn systematig.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau myfyrio ar ansawdd eu dysgu a'u dealltwriaeth pan ofynnir iddynt wneud hynny. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn dangos pa mor dda y maent yn deall tasg a beth yn fwy y mae angen iddynt ei wybod i'w chwblhau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gan mai profiad cyfyngedig yn unig o werthuso eu gwaith sydd gan ddisgyblion ar draws yr ysgol, mae eu gallu i nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud gwelliannau yn gyfyngedig.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion amgyffrediad cryf o bwysigrwydd cynhwysiant ac amrywiaeth. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth dra ystyriol o wahanol fathau o deuluoedd a pherthnasoedd cariadus sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu. Maent yn siarad yn wybodus a gydag argyhoeddiad am y modd y mae pobl â gwahanol gredoau, ethnigrwydd ac ymddangosiadau yn cyfrannu at ysgol, cymuned a chenedl lwyddiannus. Trwy gwricwlwm yr ysgol, clybiau ar ôl yr ysgol a gwaith y pwyllgor Eco, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd cynaliadwyedd a gofalu am yr amgylchedd. Maent yn deall sut mae eu

gweithredoedd yn effeithio ar y blaned a beth allan nhw ei wneud er mwyn gwneud gwelliannau.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n symbylu ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae athrawon yn trefnu dysgu disgyblion yn themâu sy'n galluogi creu cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd o'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion gyd-destun pwrpasol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau ynddo. Mae athrawon yn ystyried syniadau a diddordebau disgyblion i gynllunio gweithgareddau sy'n eu cymell. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn pleidleisio ar awgrymiadau eu cyfoedion i ddewis y syniadau mwyaf poblogaidd ar gyfer dysgu fel rhan o'u 'jig-so' gwaith cartref. Mae athrawon yn gwneud defnydd da iawn o ymwelwyr ac ymweliadau i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Maent yn defnyddio cysylltiadau cryf â rhieni a'r gymuned leol i roi dyfnder a pherthnasedd i brofiad disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar y cyfle i ddysgu gan breswylydd lleol a ymgartrefodd yn y pentref ar ôl mudo i'r ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, maent yn darparu ystod dda o weithgareddau â ffocws sy'n galluogi disgyblion i adeiladu eu medrau yn systematig. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau ymarferol gwerth chweil mewn ystafelloedd dosbarth ac yn yr awyr agored sy'n cynorthwyo disgyblion i gymhwyso eu dysgu yn bwrpasol. Mae athrawon wedi cydweithio i arloesi'r ffordd y maent yn cyflwyno gwahanol agweddau ar y Cwricwlwm newydd i Gymru. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno carwsél o wersi yn ystod yr wythnos ym mhob dosbarth. Mae hyn yn galluogi staff ystafell ddosbarth i rannu diddordebau ac arbenigedd penodol â grwpiau ehangach o ddisgyblion. Er bod yr ymagwedd hon yn ei dyddiau cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r cyfle i weithio gyda gwahanol oedolion, ac yn edrych ymlaen at y gwersi hyn.

Mae athrawon a swyddogion cymorth dysgu yn adnabod disgyblion yn dda. Ym mhob dosbarth, maent yn gweithio gyda'i gilydd yn agos ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion. Maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn creu amgylchedd pwyllog a hamddenol ar gyfer dysgu'n llwyddiannus. Mae swyddogion cymorth dysgu yn darparu cymorth gwerthfawr i unigolion a grwpiau mewn dosbarthiadau, ac yn chwarae rôl allweddol mewn sicrhau cynnydd disgyblion. Er enghraifft, maent yn fodelau rôl da ar gyfer iaith gyda disgyblion iau ac yn rhyngweithio'n sensitif i fagu hyder disgyblion ac ymestyn eu dysgu'n briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu da o oedran cynnar ac yn fodlon rhoi cynnig ar bethau.

Mae athrawon yn trefnu'r amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored yn dda. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o arddangosfeydd i ddathlu dysgu disgyblion ac fel cyfrwng i ddisgyblion gyfeirio ato. Maent yn trefnu adnoddau fel bod disgyblion yn gallu defnyddio'r rhain yn annibynnol, er enghraifft i gefnogi eu chwarae yn y dosbarthiadau iau neu i ddisgyblion hŷn ymchwilio a gwirio eu gwaith.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir sy'n galluogi disgyblion i gwblhau gweithgareddau'n llwyddiannus. Yn yr achosion

gorau, mae athrawon yn gosod nodau uchelgeisiol ar gyfer dysgu disgyblion ac yn creu dealltwriaeth glir o'r hyn mae angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, yn enwedig lle mae'n ofynnol i ddisgyblion weithio ar dasgau yn annibynnol, nid yw gweithgareddau'n gweddu i ystod lawn anghenion disgyblion yn effeithiol. O'r herwydd, mae rhai disgyblion yn ei chael yn anodd ymgymryd â'r dasg yn gynhyrchiol ac ni chaiff disgyblion eraill eu herio i gymhwyso eu medrau'n llawn.

Mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion ar eu gwaith ac yn eu hannog i asesu eu cynnydd eu hunain ar ôl cwblhau tasgau. Maent yn defnyddio holi i werthuso dealltwriaeth disgyblion ac yn ymyrryd yn briodol yn ystod gwersi i fynd i'r afael â chamdybiaethau neu roi arweiniad. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn nodi'n ddigon clir beth yw'r camau penodol y mae angen i ddisgyblion eu cymryd i wella'u gwaith, ac ni chaiff disgyblion ddigon o gyfle i wneud gwelliannau gwerth chweil.

Mae athrawon yn trefnu darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd gwerth chweil, trwy sesiynau dyddiol Helpwr Heddiw a gwersi â ffocws, er mwyn i bob disgybl ymarfer siarad yr iaith a meithrin ei wybodaeth a'i hyder yn raddol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o gemau i greu cyflymdra bywiog yn y sesiynau hyn sy'n ennyn bron pob un o'r disgyblion yn dda, ac yn creu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu a siarad yr iaith.

Mae'r ysgol yn rhoi amlygrwydd clir i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u treftadaeth a'u diwylliant Cymreig. Yn benodol, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn i hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o amrywiaeth y Gymru fodern. Er enghraifft, maent yn defnyddio digwyddiadau cyfoes i ddangos effaith gwahaniaethu a rhagfarn, ac yn amlygu cyflawniadau cadarnhaol modelau rôl sy'n herio neu'n goresgyn gwahaniaethu. O ganlyniad, mae pob disgybl yn dangos dealltwriaeth aeddfed o degwch a goddefgarwch.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn gweithio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael gofal da yn yr ysgol. Maent yn darparu cymorth o ansawdd da ar gyfer lles meddyliol a chorfforol disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o offer i annog disgyblion i fod yn egnïol yn ystod amseroedd egwyl ac amrywiaeth o glybiau ar ôl yr ysgol sy'n datblygu ystod o fedrau a phriodoleddau. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd cynnal iechyd meddwl da. Er enghraifft, ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd, maent yn archwilio ffyrdd o drafod a rhannu eu teimladau.

Mae ystod dda o grwpiau llais y disgybl yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o amrywiaeth o ddisgyblion o fewn cymuned yr ysgol, fel y rhai ag ADY a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae staff yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn ymgymryd ag ystod eang o waith diwylliannol a chreadigol. Er enghraifft, creodd disgyblion ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 3 waith celf ffelt Celtaidd a gafodd ei arddangos mewn oriel leol ac yn Oriel Tate Modern yn Llundain.

Mae staff yn rhoi pwyslais clir ar ddatblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion trwy wersi ac wrth iddynt ryngweithio â disgyblion bob dydd. Er enghraifft, pan fyddant yn

atgoffa disgyblion am bwysigrwydd ymddygiad priodol, maent yn sicrhau bod disgyblion yn deall pam mae hyn yn berthnasol a'r effaith y gallai eu gweithredoedd ei chael ar ddisgyblion eraill. Mae athrawon yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ystod eang o faterion moesegol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cysylltu profiad faciwîs a ffoaduriaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd â'r heriau sy'n wynebu pobl sy'n ffoi rhag gwrthdaro yn Wcráin. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, fel edrych ar waith pobl ddu ddylanwadol yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu ac archwilio profiadau pobl LHDTC+ yn ystod gwasanaethau. At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae staff yn annog disgyblion i archwilio eu credoau ysbrydol yn ystod gweithredoedd addoli ar y cyd, a diwylliant a chredoau crefyddol pobl o gwmpas y byd fel rhan o weithgareddau'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn datblygu eu dealltwriaeth o Hindŵaeth tra'n creu patrymau Rangoli a Mehndi.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o faterion amgylcheddol. Er enghraifft, gweithiodd disgyblion gydag elusen genedlaethol i ddatblygu llwybrau diogel i deithio i'r ysgol ar feic a sgwter. Mae'r ysgol yn defnyddio medrau a phroffesiynau rhieni'n dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith a chodi eu dyheadau. Er enghraifft, mae rhieni sy'n gweithio fel deintyddion, bydwragedd ac optegwyr wedi ymweld â'r ysgol i siarad am eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion archwilio eu hunaniaeth a'u diwylliant Cymreig. Er enghraifft, yn ystod Cwpan y Byd, maent yn ystyried beth mae'n ei olygu i fod yn Gymro neu Gymraes, a sut mae cefnogi'r tîm cenedlaethol yn dod â phobl yng Nghymru at ei gilydd. Trwy ddigwyddiadau blynyddol, fel Eisteddfod yr ysgol a pherfformiadau Nadolig, mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau perfformio.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n raddol ers y pandemig, ond nid ydynt wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig eto. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod islaw lefel presenoldeb eu cyfoedion. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o'r rhesymau am hyn ac mae'n gweithio'n dda â'r swyddog lles addysg a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau pan fyddant yn codi.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cymorth da ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae staff yn gwybod yn dda beth yw anghenion disgyblion. Maent yn mynd ati'n gyflym i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a rhoi mesurau ar waith i ddarparu cymorth ychwanegol. Mae trosglwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY wedi bod yn effeithiol. Mae'r gwaith partneriaeth rhwng y cydlynwyr ADY presennol a blaenorol yn llwyddiannus o ran sicrhau parhad yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a bodloni gofynion diwygio ADY yng Nghymru. Mae staff wedi gweithio'n effeithiol i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol gyda rhieni disgyblion ag ADY. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cymorth a gaiff eu plant ac ansawdd yr ohebiaeth gan yr ysgol. Mae ychydig o rieni'n cydnabod bod yr ysgol yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r cynnydd y mae eu plant wedi'i wneud.

Mae cynlluniau gweithredu unigol ar gyfer disgyblion yn cynnwys gweithredoedd perthnasol fesul camau bach sy'n cael eu monitro a'u haddasu'n effeithiol gan athrawon dosbarth mewn partneriaeth ag uwch arweinwyr. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i nodi anghenion disgyblion unigol a darparu cymorth. Er enghraifft, mae staff yn gweithio'n dda gyda therapydd lleferydd ac iaith i asesu anghenion disgyblion ag anawsterau cyfathrebu, ac yn rhoi rhaglenni cymorth ar waith.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu. Maent yn dilyn gweithdrefnau cadarn i sicrhau bod trefniadau'n cael eu gweithredu'n gyson a'u monitro'n effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ymroddgar sy'n sicrhau cyfeiriad clir i'r ysgol ac yn creu cymuned glòs, gynhwysol a hapus. Mae'n arwain trwy esiampl ac mae ganddi weledigaeth gadarn sy'n meithrin lles pob aelod o gymuned yr ysgol. Caiff y weledigaeth hon ei deall a'i harddel gan randdeiliaid yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r staff yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus fel tîm effeithiol. Adlewyrchir hyn yn yr agweddau cadarnhaol y mae bron pob un o'r disgyblion yn eu dangos tuag at fywyd ysgol.

Mae aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth ac aelodau eraill o staff yn cyflawni eu rolau'n bwrpasol ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae staff yn mynd i'r afael â datblygiadau diweddar mewn addysg yn gadarnhaol, er enghraifft wrth baratoi'n egnïol ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, a thrwy addasu elfennau allweddol o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithlon. Mae'r ffocws ysgol gyfan ar ddatblygu lles emosiynol ac iechyd meddwl yn gynhwysfawr, ac yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygu agweddau da iawn y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu dysgu.

Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella wedi'u seilio ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol ac mae dealltwriaeth staff ohonynt yn gadarn. Mae arweinwyr yn nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd allweddol i'w datblygu, fel yr angen i ddatblygu medrau llafaredd a darllen disgyblion, yn briodol. Maent yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol ar gyfer rhoi newid ar waith, ac ar gyfer adolygu cynnydd. Mae pob un o'r athrawon yn cymryd rhan weithredol yn y broses hon, ac o ganlyniad, mae'r staff i gyd yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o welliannau yn gyflym ac yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ni chaiff ansawdd yr addysgu ei fonitro'n ddigon manwl, ac nid yw gwendidau yn nefnydd athrawon o adborth wedi cael eu nodi'n feysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae lleiafrif o weithgareddau sydd naill ai ddim yn cynnig digon o her i ddisgyblion neu'n gofyn am fedrau ar lefel na allant eu defnyddio yn annibynnol. O ganlyniad, nid yw disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent mewn rhai gwersi.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn meddu ar wybodaeth drylwyr am berfformiad ac effaith gweithdrefnau'r ysgol ar gynnydd a lles disgyblion. Maent yn dilyn hynt a helynt datblygiadau trwy ymweld â'r ysgol, trwy gyflwyniadau gan staff a thrwy wrando ar grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn darparu cyd-destun buddiol i'w helpu i

fonitro cynnydd yr ysgol yn erbyn ei blaenoriaethau strategol, ac yn eu cefnogi wrth iddynt ddatblygu yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol i'r ysgol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ystyriol, gan sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion presennol a rhai tymor hir yn effeithiol, a sicrhau bod gwariant ar y disgyblion yn cael ei flaenoriaethu. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant yn greadigol iawn, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i sicrhau cymorth buddiol ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr ac athrawon yn olrhain unigolion a grwpiau yn ofalus i sicrhau bod rhaglenni cymorth, wedi'u hariannu gan grantiau, yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cryf. Er enghraifft, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rhoi cymorth arbenigol i ddatblygu medrau lleferydd ac iaith disgyblion yn datblygu gwybodaeth swyddogion cymorth dysgu sy'n arsylwi'r sesiynau hyn. Mae hyn yn meithrin gallu ymhlith y tîm staff sydd wedyn yn defnyddio'r arfer dda hon gyda disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau diogelu cadarn ar waith, a bod polisïau a gweithdrefnau addas i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion.

Un o nodweddion nodedig arweinyddiaeth yw'r ffocws pwrpasol a roddir i ddatblygiad proffesiynol staff ar bob lefel. Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol yn gynhwysfawr ac yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn uniongyrchol, er enghraifft trwy sicrhau bod pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant i gefnogi lles disgyblion. Caiff rheoli perfformiad staff ei gydlynu'n dda ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae pob un o'r athrawon yn aelodau o grŵp ar draws clwstwr sy'n cynnwys yr ysgol gyfun leol. Maent wedi cydweithio i gynllunio dilyniant ym mhob un o'r chwe maes dysgu ar draws yr ystod oedran 3-16. Mae hyn wedi gwella trefniadau pontio rhwng y ddwy ysgol ac yn cefnogi parhad yn nysgu disgyblion yn effeithiol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2023